R’ôl Y Grandawiad

Gan Heledd Bianchi

O chwilben!, o chwilben!
Sgrechfeydd poenus yn fy mhen; o chwilben!
Yn teithio lawr yr M4 o Lundain.
Tywyllwch pur,
Ond am y goleuadau meicro uwch fy mhen,
Mond digon i oleuo chwannen! Ffili darllen!
Dim socet yn y ffrâm i siarjo’n mobil
Ffyc, dim wi-f!i,
Oes syndod bod gen i gur-pen?!
Mond gwrando ar wynt y’n hunan
Ac ambell i beswch yn y cefn
Am gwmni dros yr awr nesaf, efe?
Ar y ‘megabus’ nôl o Lundain.
O, a sugno’r ‘fruit sherberts’.
Daw pothelle ar y’n nhafod yn y man!